# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng

## Y Bwrdd Ymddygiad Gorfodi (ECB) ac
## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)

**Cymeradwyaeth:**

| |
|---|
| **Dyddiad creu 11 / 05 / 2026** |
| **Awduron: Claire Evans (ECB); Katrin Shaw (OGCC); Ania Rolewska (OGCC)** |
| **Cytunwyd yn ffurfiol gan Catherine Brown (Cadeirydd ECB); Michelle Morris (yr Ombwdsmon)** |
| **Dyddiad adolygu 11 / 05 / 2029** |

## 1. Cyflwyniad

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth yw hwn rhwng y Bwrdd Ymddygiad Gorfodi (ECB) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).

Nod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw cefnogi'r berthynas waith rhwng ECB ac OGCC a'i gwneud yn haws i wybodaeth gael ei rhannu'n effeithlon, ac yn briodol ac yn ddiogel am ansawdd gwasanaethau yng Nghymru sy'n ymwneud ag ymddygiad cwmnïau gorfodi.

Mae'r cytundeb yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth bod cyfathrebu'n effeithiol, yn brydlon, a rhannu gwybodaeth yn gallu bod o fudd i bobl sy'n destun camau gorfodi a hefyd yn gallu esgor ar welliannau yn yr arferion gorfodi yng Nghymru.

Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn effeithio ar swyddogaethau statudol presennol y priod sefydliadau nac ar sut yr arferir y swyddogaethau hynny; nid yw ychwaith yn diwygio unrhyw bolisïau neu gytundebau eraill sy'n ymwneud â'u gweithgareddau. Nid yw'n awgrymu bod unrhyw gyfrifoldeb yn trosglwyddo o'r naill i'r llall, nac yn awgrymu bod unrhyw gyfrifoldebau statudol yn cael eu rhannu ac eithrio lle caniateir hynny gan statudau.

Er nad yw'r Memorandwm hwn yn gyfreithiol rwymol, mae ECB ac OGCC yn ymrwymo i ddilyn ei ddarpariaethau.

Bydd y ddau sefydliad yn sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff amdano, ac am y cyfrifoldebau mae'n ei roi arnynt.

Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei wneud yn gyhoeddus a'i roi ar wefannau'r ddau sefydliad, sef y ffordd orau o dynnu sylw'r cyhoedd ato yn ein barn ni.

Mae'r cytundeb hwn yn dechrau ar 11 Mai 2026 a bydd yn cael ei adolygu bob tair blynedd neu'n gynt os bydd y partneriaid yn gofyn am gael gwneud hynny.

## 2. Rolau a chyfrifoldebau

Yr ECB yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio'r diwydiant gorfodi i sicrhau bod pawb sy'n destun camau gorfodi yng Nghymru a Lloegr yn cael eu trin yn deg. Mae'r ECB yn ymchwilio i gwynion am arferion gorfodi gwael yng Nghymru a Lloegr a gall argymell ateb addas lle mae'r arfer gwael wedi achosi anghyfiawnder i unigolyn.

Rôl yr Ombwdsmon sy'n berthnasol i'r cytundeb hwn yw

- ystyried ac ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd am yr anghyfiawnder a achosir pan fo sefydliadau sydd yn yr awdurdodaeth yn camweinyddu neu'n pan fo'u gwasanaeth yn methu. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol a chymdeithasau tai (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) yn ogystal â gweithredoedd yr asiantau a'r cwmnïau gorfodi y mae'r sefydliadau hyn wedi contractio gweithgarwch gorfodi allan iddynt.
- cywiro pethau a rhoi pobl yn ôl yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na baent wedi dioddef anghyfiawnder, a gweithio i sicrhau'r canlyniad gorau posibl os oes anghyfiawnder wedi digwydd.
- gweithio gyda'r sefydliadau sydd yn yr awdurdodaeth fel bod y gwersi sy'n dod i'r amlwg drwy ymchwiliadau'n cael eu dysgu.
- hyrwyddo gwelliant parhaus yn safonau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy helpu sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

## 3. Gydweithio gyda'n gilydd:

Gall cwynion sy'n dod o fewn awdurdodaeth OGCC ac ECB ddod i law'r ddau sefydliad ac mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r egwyddorion allweddol y bydd y ddau sefydliad yn eu dilyn wrth ddelio â'r cwynion hynny. Bydd y ddau sefydliad yn rhoi anghenion yr achwynydd wrth wraidd unrhyw benderfyniadau wrth ddelio ag achosion.

Mae gan OGCC ac ECB ill dau ddiddordeb mewn sicrhau bod prosesau cwyno cwmnïau ac asiantau gorfodi yn dilyn yr arferion gorau. Mae'r ECB wedi datblygu Safonau ar gyfer ymddygiad Cwmnïau ac Asiantau Gorfodi. Mae gan OGCC bwerau statudol i osod trefniadau cwyno model ar gyfer sefydliadau yn ei awdurdodaeth. Mae'r pwerau hyn ar hyn o bryd yn ymestyn i awdurdodau lleol ac felly hefyd i weithredoedd y cwmnïau gorfodi a'r asiantau y mae'r sefydliadau hyn wedi contractio gweithgarwch gorfodi allan iddynt. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi sut bydd y ddau sefydliad yn ystyried eu gwaith eu hunain i wella'r safonau ymdrin â chwynion.

Bydd cysylltiadau allweddol ar gael i hwyluso'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydweithio o dan y cytundeb hwn.

## 4. Delio â chwynion

Bydd OGCC a'r ECB yn cael eu harwain gan yr egwyddorion canlynol, wrth ddelio â'r cwynion a gânt:

a) *Cyfeirio:* Bydd OGCC a'r ECB yn cyfeirio achwynwyr at y naill a'r llall, pan fyddant yn fodlon bod y gŵyn yn syrthio o fewn cylch gwaith y sefydliad arall ac nid o fewn eu cylch gwaith nhw. Byddai hyn yn cynnwys cwynion i'r ECB am weithredoedd awdurdodau lleol, a chwynion i OGCC am drefniadau gorfodi gan gyrff heblaw awdurdodau lleol neu drefniadau gorfodi awdurdodau lleol sy'n gweithredu drwy gontract allanol nad ydynt yn syrthio o fewn cylch gwaith OGCC nac yn cyrraedd y trothwy i lansio ymchwiliad.

   Bydd yr ECB fel arfer yn cyfeirio achwynwyr at OGCC yn y sefyllfaoedd canlynol:

   i. os oes gan yr achwynydd bryderon am weithredoedd yr awdurdod lleol a'r cwmni gorfodi neu'r asiant; a

   ii. chwynion lle byddai angen i'r ECB ystyried gweithredoedd yr awdurdod lleol cyn penderfynu ar y ffordd briodol o ddelio â'r gŵyn.

   Os yw'r achwynydd wedi cydsynio i gyfeirio'r gŵyn yn uniongyrchol, caiff OGCC a'r ECB gyfeirio cwynion newydd rhyngddynt yn uniongyrchol.

*b) Safonau'r ECB:* Bydd OGCC yn ystyried Safonau'r ECB ar gyfer Ymddygiad Cwmnïau ac Asiantau Gorfodi wrth benderfynu ar gwynion am drefniadau gorfodi awdurdodau lleol sy'n cael eu gweithredu drwy gontract allanol.

*c) Cwynion cydamserol:* Os yw'n ymddangos, ar unrhyw adeg, fod yr ECB ac OGCC yn ystyried yr un gŵyn, byddant, gyda chaniatâd yr achwynydd, yn ymgynghori ynghylch y gŵyn ac yn cysylltu â'r achwynydd i benderfynu ar y ffordd orau o fwrw ymlaen. Ni fydd yr ECB yn parhau i ymchwilio i gŵyn os bydd OGCC wrthi'n ymchwilio iddi.

*d) Cwynion y gwnaed penderfyniad arnynt:* Ni fydd yr ECB yn ymchwilio i gŵyn os yw OGCC eisoes wedi ystyried rhinweddau'r un gŵyn ac wedi dod i benderfyniad yn ei chylch. Bydd OGCC yn ystyried canfyddiadau ymchwiliad yr ECB wrth benderfynu ar gŵyn y mae'r ECB eisoes wedi gwneud penderfyniad yn ei chylch, er enghraifft y camau unioni a gynigir drwy ymchwiliad yr ECB.

*e) Cyfeirio ar ddiwedd ymchwiliad:* Pan fydd yr ECB yn ymchwilio i gŵyn am gamau gorfodi awdurdod lleol sy'n cael eu gweithredu drwy gontract allanol, ar ôl gorffen delio â'r gŵyn bydd yn cyfeirio'r achwynydd naill ai at drefn gwyno'r awdurdod lleol neu'n uniongyrchol at OGCC, fel y bo'n briodol.

## 5. Cefnogi rôl oruchwylio'r ECB

Mae gan yr ECB ran bwysig i'w chwarae i sicrhau bod pawb sy'n wynebu camau gorfodi yn cael eu trin yn deg. Yn yr achosion mwyaf difrifol, neu os gwelwyd yr un problemau'n codi dro ar ôl tro gydag asiant, gall yr ECB gyflwyno cwyn EAC2[1] i ofyn i'r llys ystyried a yw'r asiant gorfodi yn addas a phriodol i ddal tystysgrif.

Er mwyn cefnogi'r ECB yn y gwaith hwnnw, bydd OGCC, lle bo'n briodol, yn argymell bod cynghorau'n mynnu bod cwmnïau gorfodi sy'n gweithredu drwy gontract allanol yn rhoi gwybod i'r ECB am ganlyniad ymchwiliad OGCC os bydd OGCC yn canfod bai ar weithredoedd y cwmni gorfodi neu'r asiant.

## 6. Rhannu gwybodaeth am gwynion

### Egwyddorion cyffredinol

Bydd y berthynas weithio rhwng OGCC a'r ECB yn cael ei nodweddu gan gyswllt rheolaidd, a threfn agored, briodol o rannu gwybodaeth o fewn ffiniau eu priod fframweithiau cyfreithiol.

Bydd OGCC a'r ECB yn rhannu gwybodaeth berthnasol a phriodol i gefnogi eu priod brosesau ar gyfer gweithio ar achosion. Bydd hyn yn cynnwys, ar gais:

a) Cadarnhad ynghylch a yw'r naill sefydliad neu'r llall wedi derbyn yr un gŵyn.

b) Os yw'r un gŵyn wedi dod i law, cadarnhad ynghylch ym mha gam y mae'r gŵyn yn y briod broses (gan gynnwys a gwblhawyd y broses).

c) Gwybodaeth berthnasol am y penderfyniad ar y gŵyn os yw wedi cael ei gyhoeddi.

### Rhannu data

Mae'r ddau sefydliad yn cydnabod bod yn rhaid prosesu data personol (gan gynnwys rhannu data personol) yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Hawliau Dynol 1998, a phob deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r materion hyn a'r priod Godau Ymarfer, fframweithiau neu bolisïau eraill sy'n ymwneud â materion gwybodaeth a gwybodaeth bersonol gyfrinachol.

Y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu gwaith OGCC yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae

[1] Proses EAC2 yw'r broses y gall unigolyn ei defnyddio i gwyno wrth y Llys Sirol am weithredoedd yr Asiant Gorfodi a bydd y Llys Sirol yn penderfynu a ddylid dileu ardystiad yr Asiant Gorfodi.

OGCC yn rhwym i weithredu o fewn telerau'r ddeddfwriaeth hon a dim ond yn unol â'r darpariaethau a nodir yn y ddeddfwriaeth hon y caiff ddatgelu gwybodaeth.

Mae'r ddau sefydliad yn cytuno y bydd rhannu data personol yn cael ei ystyried fesul achos ac yn cael ei wneud mewn modd sy'n gyson â'r Cod Ymarfer ar Rannu Data a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Cytunir ar fesurau diogelwch priodol i ddiogelu prosesau trosglwyddo gwybodaeth yn unol â sensitifrwydd y wybodaeth ac unrhyw ddosbarthiad a ddynoda’r anfonwr.

Pan fydd un parti wedi cael gwybodaeth gan y llall, bydd yn cysylltu â'r parti arall cyn trosglwyddo'r wybodaeth i drydydd parti neu cyn defnyddio'r wybodaeth mewn achos gorfodi neu achos llys.

Pan fydd deunydd cyfrinachol a gafwyd gan y parti gwreiddiol, neu a rannwyd ganddo, yn cael ei ddatgelu ar gam gan y parti sy’n dal y wybodaeth, bydd y parti hwn yn dwyn hyn i sylw’r parti gwreiddiol yn ddi-oed. Mae hyn yn ychwanegol at rwymedigaethau i roi gwybod am achos o dramgwyddo diogelwch data personol o dan GDPR y DU a/neu’r Ddeddf Diogelu Data pan mae data personol wedi’i gynnwys yn y wybodaeth a ddatgelwyd.

**Cydsyniad**

Mae OGCC a’r ECB yn cytuno bod angen cydsyniad i rannu gwybodaeth rhyngddynt. Oni bai fod addasiadau rhesymol yn pennu fel arall, dylai’r cydsyniad fod yn ysgrifenedig, er bod nodyn o gydsyniad llafar yn dderbyniol yn y lle cyntaf, cyn cyflwyno cydsyniad ysgrifenedig yn ddiweddarach. Pan fydd rhywun wedi rhoi ei ganiatâd i unigolyn arall ei gynrychioli i ddelio â'i gŵyn, a phan fydd OGCC a’r ECB yn fodlon bod y cynrychiolydd yn addas, gellir derbyn cydsyniad i rannu data gan y cynrychiolydd.

**Ceisiadau rhyddid gwybodaeth**

Mae'r ECB yn cydnabod cyfrifoldebau OGCC o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd OGCC yn cael cais am wybodaeth gan yr ECB, bydd OGCC yn trafod y cais gyda’r ECB cyn ymateb. Mae'r ECB yn cydnabod y saif y penderfyniad i ddatgelu neu gadw'r wybodaeth yn ôl (ac felly unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o'r penderfyniad hwnnw) gydag OGCC fel y parti sy'n derbyn y cais fel rheolydd data mewn perthynas â'r data hwnnw.

## 7. Cefnogi gwaith gwella'r naill a'r llall

Mae OGCC yn croesawu gwaith yr ECB i geisio gwella’r safonau gwasanaeth a’r safonau delio â chwynion ymysg cwmnïau gorfodi ac asiantau.

Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol yn gweithredu o dan bolisi a chanllawiau cwynion model OGCC. Mae gofynion y polisi a’r canllawiau hyn yn ymestyn i weithredoedd y cwmnïau gorfodi a'r asiantau y mae'r sefydliadau hyn wedi contractio gweithgarwch gorfodi allan iddynt.

Er mwyn cysoni’r ymdrechion i wella a sicrhau cysondeb, mae OGCC yn ymrwymo i wneud y canlynol:

- rhannu gyda’r ECB, pan ddaw cais i law, unrhyw adnoddau a grëir gan y swyddfa fel rhan o'i gwaith ar safonau cwynion. Gall hyn gynnwys taflenni hyfforddi, canllawiau ar gwynion, yn ogystal â gwybodaeth gan y swyddogion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith ar safonau cwynion.
- ystyried safonau ECB wrth ystyried unrhyw gwynion sy'n ymwneud ag ymddygiad cwmnïau gorfodi ac asiantau sydd wedi'u contractio gan awdurdodau lleol yng Nghymru a chyfeirio at y safonau hyn os yw'n briodol yn ei benderfyniadau.

## 8. Y cyfryngau a chyhoeddiadau

Bydd OGCC a’r ECB yn ceisio rhoi digon o rybudd i'w gilydd, ynghyd â gwybodaeth ddigonol, am unrhyw gyhoeddiadau arfaethedig i'r cyhoedd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cyhoeddiadau a chynigion drafft.

Mae OGCC ac ECB yn ymrwymo i weithio gyda'i gilydd, lle bo hynny'n briodol, i gynhyrchu datganiadau neu gyfathrebiadau ar y cyd sy'n tynnu sylw at gydweithio neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad a byddant yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae OGCC a’r ECB yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn eu cyhoeddi ac ni fyddant yn gweithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai'n golygu bod cynnwys y dogfennau hynny'n cael ei wneud yn gyhoeddus cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

## 9. Llywodraethu

Bydd effeithiolrwydd y berthynas waith rhwng OGCC a’r ECB yn cael ei gynnal drwy gyswllt rheolaidd, boed hwnnw'n gyswllt ffurfiol neu anffurfiol.

Bydd unrhyw anghytundeb rhwng OGCC a’r ECB fel arfer yn cael ei ddatrys ar lefel weithredol. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid tynnu sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad A at hyn, a gallant hwy wedyn ei uwchgyfeirio fel y bo'n briodol o fewn y ddau sefydliad er mwyn dod i benderfyniad sy'n foddhaol i'r ddwy ochr.

## 10. Cyfnod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a’i adolygu

Mae'r ddau sefydliad wedi enwi unigolyn sy'n gyfrifol am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad A. Byddant yn cysylltu yn ôl yr angen i sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei ddiweddaru, i nodi unrhyw broblemau sy'n codi a delio ag unrhyw gwestiynau sy'n codi yn y berthynas waith rhwng y ddau sefydliad.

Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd gan reolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad A. Efallai y bydd hefyd yn cael ei adolygu'n amlach ar unrhyw adeg os bydd angen ei newid, neu os bydd yn peidio â bod yn berthnasol, ar gais y naill sefydliad neu'r llall.

## 11. Atodiad A - Manylion Cysylltu a Chymeradwyaeth

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | **Llofnod:** |
|  |  |
| Chris Nichols | Michelle Morris |
| Prif Weithredwr | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Bwrdd Ymddygiad Gorfodi | |
| Dyddiad: 11/05/2026 | Dyddiad: 11/05/2026 |

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Ymddygiad Gorfodi** | **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| Bwrdd Ymddygiad Gorfodi | 1 Ffordd yr Hen Gae, |
| PO Box 7956 | Pencoed |
| WOLVERHAMPTON | CF35 5LJ |
| WV1 9US | |
| E-bost: contact@enforcementconductboard.org | Ffôn: 0300 790 0203 |

Dyma enwau'r cysylltiadau rhwng OGCC a'r ECB:

| **Prif Weithredwyr** | |
|---|---|
| Chris Nichols | Michelle Morris |
| Bwrdd Ymddygiad Gorfodi | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| ECB | OGCC |
| **Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** | |
| Claire Evans | Ania Rolewska |
| Pennaeth Cwynion | Pennaeth Polisi ac Ymgysylltu |